| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **22 Hydref 2009** |
| **ADRODDIAD** | **CYNLLUN TAIR BLYNEDD (RHAN 2)** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno Cynllun Gwella (Rhan 2) y cyngor i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.** |
| **AWDUR** | **Geraint George, Pennaeth Adran Strategol a Gwella** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol ar y Cyngor i gyhoeddi cynllun sydd yn crynhoi ei brif gynlluniau ar gyfer y flwyddyn ac hefyd i adrodd ar berfformiad y Cyngor ar y prif welliannau a dangosyddion. Mae'r Cynllun Tair Blynedd ei hun a'r adolygiad sydd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor yn cyflawni'r gofyn cyntaf o ran amlinellu prif gynlluniau'r Cyngor. Mae'r ddogfen sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn yn ddrafft o'r ddogfen a fydd yn cyflawni'r ail ofyniad o ran adrodd ar berfformiad 2008/09. Mae felly yn adrodd ar beth sydd wedi ei gyflawni a beth a lithrodd yn ystod y flwyddyn honno.

1.2 Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad y Cyngor ar faterion yn y Cynllun Tair Blynedd. Mae'r pwyllgorau craffu unigol wedi bod yn ystyried cynnydd yn erbyn gwelliannau a dangosyddion unigol yn eu meysydd a cyflwynwyd yr adroddiad eisoes i'r Prif Bwyllgor Craffu ac i Fwrdd y Cyngor.

## 2. Y CYNNWYS

2.1 Mae Atodiadau 1 a 2 (tudalennau 17 a 34) yn darparu manylion am berfformiad y Cyngor ar holl welliannau a dangosyddion y Cynllun Tair Blynedd at ddiwedd 2008/09. Wrth gwrs, mae'r materion hyn oll ym meysydd gwaith pwyllgorau craffu unigol, ac mae'r pwyllgorau hynny wedi cael cyfle i herio cynnydd yn y meysydd unigol yn eu cyfarfodydd rheolaidd yn ystod cylch mis Mai.

2.2 Tynnaf sylw at rai darnau o'r ddogfen sydd yn cynnig trosolwg o berfformiad y Cyngor.

- Y tabl ar dudalen 14 sydd yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni (neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at eu cyflawni) 104 neu 82% o'r gwelliannau yr ymrwymwyd iddynt yn y Cynllun Tair Blynedd ac wedi methu cyflawni ar 22 neu 18% ohonynt

- Y tabl ar dudalen 15 sydd yn nodi bod y Cyngor wedi cwrdd  â thargedau cronnus ar gyfer 32 neu 78% o'r dangosyddion perfformiad yr ymrwymwyd iddynt yn y Cynllun Tair Blynedd ac wedi methu cyrraedd y targedau hynny ar 9 neu 22% ohonynt
- Y tabl ar dudalen 16 sydd yn nodi y canran o ddangosyddion (y mae modd eu cymharu) sydd wedi gwella o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol – Dengys hyn welliant mewn 66%, cynnal safon y perfformiad mewn 13% a dirywiad yn 22%

2.3 Elfen newydd o'r cyhoeddiad eleni yw'r adroddiadau sydd yn cychwyn ar dudalen 6 sydd yn ceisio crynhoi perfformiad y Cyngor yn erbyn ymrwymiadau'r Cynllun mewn geiriau trwy roi disgrifiad byr o gyrhaeddiad yn ystod 2008/09. Gwneir hyn fesul yr 22 Blaenoriaeth Strategol sydd yn y Cynllun ar hyn o bryd.  Yn ychwanegol, ceir manylion pellach am yr holl gynlluniau yn Atodiad 1, gan gynnwys esboniad o'r camau gweithredu lle bu asesiad 'x' ar ddiwedd 2008/09.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gwahoddir y Cyngor llawn i

(a) gymeradwyo'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2008/09, a'i fabwysiadu.

(b) Awdurdodi'r Pennaeth Adran Strategol a Gwella i wneud unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau golygyddol angenrheidiol cyn cyhoeddi

A. Barn yr Aelod Lleol:- Ddim yn fater lleol

B. Barn y Swyddogion Statudol:-

1. Y Prif Weithredwr:-

"Fel y noda adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella, mae'n bwysig bod y ddogfen yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad y Cyngor a bydd y Prif Bwyllgor Craffu wedi cael cyfle i graffu hyn cyn i'r Bwrdd drafod y mater.

Carwn ategu'r hyn yr wyf yn ei ddweud yn y rhagair i'r ddogfen. Yng nghyd-destun y pwysau ar y Cyngor, yn cynnwys yr her cyllidol rydym wedi bod ac yn parhau i'w wynebu, mae llwyddo i gyflawni 82% o'n gwelliannau a cyfarfod â thargedau'r flwyddyn ar 78% o'n dangosyddion yn fater i fod yn falch ohonno ac yn glod i bawb a gyfranodd at hynny."

2. Swyddog Monitro:-

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb

3. Prif Swyddog Cyllid:-

“Mae’n galonogol fod y Cynllun Tair Blynedd yn cynnwys llwyddiant i lunio strategaeth ariannol tymor canolig, cyrhaeddiad clodwiw o ran canfod arbedion ariannol y gellir eu gwireddu, cynnydd arwyddocaol tuag at fabwysiadu cynllun rheoli asedau, a llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb.”

C. Papurau Cefndir

CH. Goblygiadau Polisi